


Ardal Cymeriad Tirwedd 21: Penalun

Leoliad

Yn ne-ddwyrain Sir Benfro i'r gorllewin o Ddinbych-y-pysgod ac am y ffin gyda'r Parc Cenedlaethol i'r de a'r dwyrain.





Golygfa o'r grib a'r gorwel ar draws gwaeld y dyffryn o'r gogledd ddwyrain



Golyga i'r de ddwyrain o'r Ffordd Las tuag at yr arfordir yn Lydstep



Golyga o nenlinell y grib a'r cefndir o'r de orllewin o fewn y Parc Cenedlaethol

Disgrifiad cryno

Brig crib cefnen nodedig ac amlwg yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin a llethrau yn disgyn i'r gogledd i ddyffryn gwastad Ritec gyda chorstir a llethrau yn y dwyrain yn disgyn i'r de i anheddiad Penalun gyda'i Ardal Gadwraeth a thir isel cysylltiedig ychydig y tu ôl i'r arfordir yn y Parc Cenedlaethol. Ardal amaethyddol yw hon yn bennaf gyda chlytiau o goetir llydanddail ar lethrau serth. Mae'r grib a'r llethrau yn ffurfio rhan o gefndir y Parc Cenedlaethol i'r de ac mae'r ardal yn ffurfio bwlch gwyrdd rhwng pentref Penalun a Kiln Park yn Ninbych-y-pysgod i'r dwyrain.

Nodweddion allweddol

- Brig crib amlwg yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin gan godi i 108m AOD yn y canol ac yn disgyn i ychydig dros 90m AOD i'r dwyrain a'r gorllewin.
- I'r gogledd, mae'r grib yn goleddfu'n serth i ddechrau ac yna mewn cyfres o lethrau a dyffrynnoedd graddol i ddyffryn llethrog serth a gwaelod gwastad nodedig y Ritec ar 5m AOD gyda rhai cyrff dŵr agored bach. I'r de ddwyrain mae'r llethrau wedi'u marcio ac yn gyson i lawr i Benalun ar tua 5-10m AOD.
- Y ddaear yn bennaf yw Hen Dywodfaen Coch Defonaidd sy'n ffurfio crib amlwg sy'n rhedeg rhwng dwyrain a gorllewin ac yn ffurfio nodwedd arwyddocaol o'r dirwedd. Mae'r llethrau is i'r gogledd a'r de-ddwyrain o amgylch Penalun wedi'u ffurfio o galchfaen Carbonifferaidd sy'n parhau mewn band i'r gorllewin yn ACT 20. Mae dyffryn Ritec yn llyn/lagŵn blaenorol mewn aber boddedig gyda rhwystr twyni tywod y Burrows tua'r de'n ei wahanu o'r môr ac mae iseldir afonol tebyg yn gorwedd i'r de. Mae llethrau gogleddol afon Ritec yn barhad o galchfaen/carreg laid Carbonifferaidd sy'n ymestyn i lawer o ACT20 i'r gogledd.

- **Glaswelltir amaethyddol** wedi'i wella'n bennaf **mewn caeau afreolaidd bach i ganolig, gyda rhywfaint o dir â'r gogledd ger Gumfreston, wedi'i amgáu gan gloddiau a gwrychoedd gyda choed cyfyngedig.**
- **Mae corstir a gwelyau cyrs yn gorwedd ar lawr dyffryn dyffryn Ritec** fel rhan o SoDdGA Cors Ritec ac i'r de o Benalun.
- **Ceir darnau bach o goetir hynafol ar lethrau serth dyffryn sy'n gysylltiedig â'r Ritec a'r llednentydd ac yn fwy helaeth ar ochrau'r grib sy'n wynebu'r gogledd gyda choetir llydanddail arall.** Mae ogofâu a choetir Little Hoyle a Hoyle's Mouth yn SoDdGA.
- **Mae ffermydd gwasgaredig achlysurol yn britho llawer o'r patrwm anheddu, yn bennaf lle mae mannau gwastad ar y llethrau neu'n is i lawr yn y dirwedd a rhai ag adeiladau rhestredig** fel tai canoloesol West Tarr a Carswell a ffermdy Palmerslake. Mae Ardal Gadwraeth St Florence i'r gorllewin ychydig y tu allan i'r ardal.
- Mae henebion cofrestredig yn cynnwys safle Ogof Little Hoyle a Longbury Bank o'r Oesoedd Tywyll ar ymyl llawr y dyffryn a beddrodau crwn Carew Beacon ar ben gorllewinol y grib.
- Mae defnyddiau heblaw am anamaethyddol i'r gogledd o'r grib gan gynnwys cwrs golff ym Maenordy Trefloyne a fferm solar fechan a llwybrau beiciau cwad yn Fferm Roberts Wall.
- Anheddiad **Penalun** yw'r unig anheddiad o faint. **Fe'i lleolir ar lethrau isaf y grib ychydig uwchlaw'r lefelau ac mae Ardal Gadwraeth yn ei graidd gydag adeiladau rhestredig carreg a rendrad cysylltiedig fel yr eglwys, tai a bythynnod, a lawntiau llethrog dymunol.** Mae tai wedi ehangu i'r gogledd a'r gorllewin ac mae meysydd carafanau a gwersyll hyfforddi'r Weinyddiaeth Amddiffyn i gyd wedi'u diffinio a'u cyfyngu gan ffordd arfordir yr A4139 i'r de a'r dwyrain a chefnidir coediog yn bennaf i'r gogledd. Mae tai modern, fel Penally Heights i'r gorllewin, yn ymwthio i'r nenlinell heb unrhyw fesurau lliniaru mewn rhai golygfeydd.
- Mae rhan o barc gwyliau Kiln Park i'r dwyrain ond mae wedi'i gynnwys yn gynnill gan dirffurf serth sy'n rhedeg hyd at Four Winds Lane yn ogystal â llystyfiant cysylltiedig.
- Mae mynediad i'r ardal yn gyfyngedig i'r gogledd ar wahân i'r Ffordd Las ac ychydig o isffyrdd, ac mae Llwybr Beicio Cenedlaethol 4 yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin ar hyd un ohonynt ac yn dringo i fyny ei phen gorllewinol a Llwybr Ritec ar hyd y dyffryn nodedig. I'r de mae'r A4139, y rheilffordd a Llwybr Arfordir Cymru.
- **Mae gan y rhan ddwyreiniol rôl fel man gwyrdd a ddynodwyd yn Lletem Las yn y CDLI mabwysiedig sy'n gwahanu Penalun o Ddinbych-y-pysgod/Kiln Park gyda glaswelltir garw, cwrs golff, caeau amaethyddol/glaswellt agored ar lethrau graddol i fyny o'r twyni arfordirol, gydag eiddo mewn gerddi a chaeau mawr ymhellach i mewn i'r tir.**
- **Mae pen y grib gul yn ffurfio nenlinell nodedig sy'n rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin ac mae llethrau deheuol yn rhyngweladwy iawn gyda'r Parc Cenedlaethol i'r de, gan gyfrannu'n gryf at ei osodiad.**
- **Mae'r ardal yn dawel i raddau helaeth ar hyd y gefnffordd ac i'r gogledd er bod hyn yn lleihau o amgylch Penalun.**
- **Ceir golygfeydd allweddol o'r Ffordd Las a'r llwybrau troed ar y grib allan i Ynys Bŷr a Bae Caerfyrddin. Ceir golygfeydd allweddol eraill o Lwybr Arfordir Cymru tua'r tir ar draws yr ardal ac i'r grib ac o Lwybr Ritec.**
- Yn ddiwylliannol mae'n rhan o ardal o dir amaeth bras a chymunedau Saesneg eu hiaith ymhell i'r de o linell Landsger.

* **Noder:** Mae testun trwm yn nodi nodweddion a rhinweddau allweddol sy'n cyfrannu fwyaf at ymdeimlad o le.

Newid tirwedd

- Mae datblygiadau preswyl a chysylltiedig â thwristiaeth /adloniadol modern o amgylch Penalun wedi erydu ei gymeriad traddodiadol ac mae pwysau i gynyddu hyn.
- Mae Kiln Park wedi'i ddatblygu i'r dwyrain ac mae wedi'i gynnwys a'i guddio'n dda gan dirffurf ar hyn o bryd.

- Fe all gwersyll hyfforddi'r Weinyddiaeth Amddiffyn fod yn destun newidiadau yn y blynyddoedd a ddaw, gyda phosibilrwydd pwysau i ailddatblygu o ganlyniad.
- Mae ynni solar ar raddfa fach ar hyn o bryd ond efallai y bydd pwysau am fwy.
- Mae datblygiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach, gan gynnwys tyrbinau gwynt i'w gweld o'r Ffordd Las, ac efallai y bydd pwysau am fwy yn yr ardal.
- Mae llawer o'r tir isel yma ar y glannau ac fe all wynebu mwy o risg llifogydd oherwydd y newid yn yr hinsawdd.

Canllawiau tirwedd

- Osgoi datblygiad ar orwel y grib a llethrau i'r de sy'n ehangu Penalun ac i'r gogledd yn y gefnwlad wledig. Po uchaf i fyny'r llethr y mwyaf sensitif yw'r datblygiad a dylid osgoi estyniadau o amgylch Penally Heights i'r gogledd, dwyrain a'r gorllewin.
- Cynnal y gwahaniad rhwng Penalun a Kiln Park/Dinbych-y-pysgod ac osgoi ehangu i'r ardal gan erydu'r gwahaniad a'r gosodiad agored oddi wrth Lwybr yr Arfordir.
- Osgoi unrhyw ddatblygiad i'r de ac i'r dwyrain o ffordd arfordir yr A4139 sy'n diffinio'n dynn y datblygiadau tai a hamdden sy'n gysylltiedig â Phenalun.
- Gwella a meddalu ymylon adeiledig Penalun gyda phlannu priodol a mannau gwyrdd.
- Annog coetir llydanddail a choed mewn gwrychoedd i atgyfnerthu'r terfynau a ffinio datblygiadau adeiledig ar lefelau is.
- Cadw a gwella gwrychoedd er mwyn cynnal patrwm y dirwedd os ydynt wedi gordyfu ac osgoi defnyddio pyst a gwirfau os yn bosibl.
- Dilyn arweiniad y Sir ar ddatblygiad carafanau, cabanau a gwersylla ar gyfer yr ardal.
- Rheoli ymlediad yr helygen lwyd i gynefinoedd glaswelltir gwerthfawr.
- Osgoi ynni gwynt ac ynni solar ar y grib a'r llethrau i osgoi effeithiau andwyol ar y Parc Cenedlaethol a'r ardal i'r gogledd.
- Dylai ynni solar yn y dyfodol gael ei guddio'n dda o olyfgeydd pwysig gan goed a gwrychoedd.
- Trin lifogydd gyda mesurau gwydnwch ac addasu cynefinoedd.

Ardaloedd cymeriad tirwedd cyfagos y Parc Cenedlaethol:

ACT2 Dinbych-y-pysgod

ACT 4 Maenorbŷr / Freshwater East

Ardaloedd cymeriad morwedd cyfagos y Parc Cenedlaethol:

ACM38 Dyfroedd arfordirol Lydstep Haven - gorgyffwrdd â'r ardal

ACM 39 Dinbych-y-pysgod ac Ynys Bŷr- gorgyffwrdd â'r ardal

Ardaloedd agwedd a gwerth LANDMAP:



Ardaloedd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Ardaloedd Agwedd Tirwedd Hanesyddol	Ardaloedd Agwedd Ddaearegol	Ardaloedd Agwedd Gwasanaethau Tirwedd Ddiwylliannol	Ardaloedd Agwedd Cynefinoedd Tirwedd
058 – cymedrol 057 – cymedrol 060 – cymedrol 059 – cymedrol	46080 - uchel 46175 - uchel 46177 - uchel 46154 - uchel 46153 - uchel 46173 – rhagorol 46176 – rhagorol	207 – cymedrol 216 – cymedrol 224 – cymedrol 220 - uchel 219 - uchel	109112	392 - cymedrol 885 - cymedrol 347 - uchel

Mae testun **italig trwm** yn nodi'r brif ardal agwedd lle mae un yn bodoli

Ardal Cymeriad Tirwedd 22: Aberdaugleddau

Lleoliad

Mae'r ACT hon ar lan ogleddol Dyfrffordd Aberdaugleddau ac i'r de o Hwlffordd. Ehangodd y dref i gynnwys Steynton, Hakin a Blackbridge.





Charles Street o'r dwyrain



Prif lwybr yr A4076 i Aberdaugleddau o'r gogledd

Disgrifiad cryno

Canolbwynt yr anheddiad yw Glannau Aberdaugleddau gyda phorthladd pysgota, marina, doc y gellir ei sychu a loc a chanol y dref o derasau o adeiladau Sioraidd sy'n cadw'r patrwm grid trefnus gwreiddiol o'r 18fed ganrif ar y llethrau i'r gogledd-ddwyrain. Mae'r ganolfan fanwerthu fodern ym mharc manwerthu Haven's Head ar waelod y dyffryn yn Hubberston Pill. Mae'r dref wedi ehangu i gynnwys Hakin, Hubberston, Priory, Steynton a Blackbridge. Mae diwydiant wedi'i leoli'n gyffredinol ar safleoedd bach ledled y dref, mewn parciau busnes ac ar hyd y ddyfrffordd.

Nodweddion allweddol

- Mae'r anheddiad ar Ddyfrffordd Aberdaugleddau ar lethrau clogwyni creigiog isel, yna'n codi'n raddol i tua 70mAOD ar yr ymyl ogleddol, a ddiffinnir yn bennaf gan gymoedd gogledd-de Castell Pill i'r dwyrain, Bae Gelliswick i'r dwyrain a Hubberston Pill yn ganolog sy'n rhedeg i mewn i'r dociau.
- Y ddaear sylfaenol yw Hen Dywodfaen Coch (tywodfaen Silwraidd gwaddodol a charreg silt) gydag ardaloedd o dir wedi'i adennill neu fewnlenwi.
- Dechreuodd y dref el porthladd morfila yn y 1790au ac mae'r dociau yn yr **Ardal Gadwraeth yn cynnwys adeiladau rhestredig fel y Customs House a chyn adeiladau Cwmni Dociau Milffwrdd a llawer o elfennau rhestredig fel bolardiau o amgylch y doc y gellir ei sychu a'r loc sy'n dal yn weithredol.**
- Mae dociau prysur gyda phorthladd pysgota gweithredol bach i'r gorllewin a marina i'r dwyrain yn llawn cychod hwylio hamdden ac adeiladau masnachol modern arddull warws.
- Mae craidd anheddiad trefnus o'r 18fed ganrif ar batrwm grid amlwg ar y llethrau i'r gogledd-ddwyrain hefyd yn yr Ardal Gadwraeth gyda llawer o adeiladau rhestredig yn enwedig ar Hamilton Terrace gyda'i fan gwyrdd unionlin yn edrych dros y Ddyfrffordd.

- **Mae'r terasau Sioraidd wedi'u rendro a'u paentio yn nodedig gyda rhai adeiladau cain ac mae eglwys St Katherine yn dirnod arbennig ym mhen dwyreiniol Hamilton Terrace.**
- O fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyfrffordd Aberdaugleddau, ceir tystiolaeth o weithgarwch dynol o'r Oes Haearn hyd at heddiw, gan gynnwys yr **henebion cofrestredig yn Priory Rath, Priordy Pill a'r batri magnelau mawreddog o'r 19eg ganrif sydd wedi gordyfu yn Fort Hubberston i'r gorllewin.**
- Mae ystadau tai mawr, datblygiadau addysg a datblygiadau masnachol a adeiladwyd yn ail hanner yr 20fed ganrif a dechrau'r 21ain ganrif bellach yn ymuno ag aneddiadau hŷn llai yn Hakin, Hubberston a **Steynton. Mae Steynton wedi cadw cymeriad gwledig amlwg ar ymyl yr anheddiad gyda thŵr uchel nodedig Eglwys Sant Cewydd a San Pedr yn nodwedd.**
- **Mae Priordy Pill a'r adeiladau rhestredig cysylltiedig a'r anheddiad yn cadw cymeriad tawel gwledig sy'n amlwg ar wahân i'r prif anheddiad i'r dwyrain o'r rheilffordd sydd ag ymyl gwledig gwyrdd gwasgaredig yn lleoliad Priordy Rath.**
- **Mae'r man agored ar hyd y Rath yn rhoi golygfeydd agored godidog ar draws y ddyfrffordd tuag at y purfeydd ac yn ffurfio ymyl gwyrdd hygyrch i'r anheddiad i'r dwyrain tra bod y llwybr troed a'r llethrau lled-naturiol i'r gorllewin o Hakin Point yn rhoi profiad tebyg.**
- **Mae parc a gardd hanesyddol Castle Hall ac adeiladau rhestredig cysylltiedig i'r dwyrain.**
- Mae SoDdGA dyfrffordd Aberdaugleddau yn cwmpasu llawer o ymyl yr arfordir ac mae ACA Sir Benfro Forol gerllaw.
- Cyfyngedig yw cynefinoedd yn y cylch adeiledig gyda llecynnau glas yn cael eu ffurfio'n gyffredinol o safleoedd amwynder a glaswelltir wedi'i wella, a pheth prysgwydd trwchus a choed yn aros ar yr ymylon gorllewinol a'r llethrau mwy serth.
- Nid oes gan yr anheddiad unrhyw brif ffyrdd yn mynd trwodd gyda mynediad i Hwlffordd ar hyd yr A4076.
- Mae datblygiad diwydiannol ar hyd y glannau i'r dwyrain y tu hwnt i Castle Pill yn segur ac yn anhygyrch gydag adfywiad lled-naturiol cysylltiedig.
- Mae Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr Beicio Cenedlaethol 4 yn rhedeg drwy'r dref ac yn caniatáu mynediad i gefn gwlad a'r arfordir cyfagos.
- Yn ddiwylliannol, mae'r ardal ymhell i'r de o Linell Landsger a chymunedau Saesneg eu hiaith sy'n bennaf yn yr ardal.

* **Noder:** Mae testun trwm yn nodi nodweddion a rhinweddau allweddol sy'n cyfrannu fwyaf at ymdeimlad o le.

Newid tirwedd

- Mae ehangu aneddiadau yn yr 20/21ain ganrif wedi newid neu guddio cymeriad hanesyddol yr anheddiad(au).
- Dylanwadwyd ar y cymeriad diwylliannol at ei gilydd gan ddirywiad yn yr 20fed ganrif gyda chymeriad ôl-ddiwydiannol mewn mannau gan gynnwys tir ac adeiladau segur.
- Mae ailddatblygu'r iard longau wedi canolbwyntio ar ddatblygiad hamdden, manwerthu a phreswyl gan symud o'i dibenion gwreiddiol a newid cymeriad.
- Mae rhannau isel y dref yn debygol o fod mewn perygl llifogydd ychwanegol oherwydd newid yn yr hinsawdd.
- Mae datblygu tyrbinau gwynt oddi allan i'r ardal yn ACT 10 yn effeithio ar olygfeydd i'r anheddiad ac oddi yno.
- Dirywiad yng nghanol y dref a siopau cysylltiedig.
- Adfeilion adeiladau diwydiannol fel ar y glannau i'r dwyrain.
- Datblygiad Fferm Solar i'r gogledd o'r Dociau.

Canllawiau tirwedd

- Parhau i warchod a gwella'r elfennau adeiledig traddodiadol a chymeriad y dref gan ganolbwyntio i ddechrau ar yr adeiladau a'r adeileddau rhestredig.
- Atgyfnerthu cymeriad morol a hyfywedd y dociau a chraidd y dref.

- Dylai datblygiad newydd barchu cyd-destun a chynllun hanesyddol y dref, cymeriad ac ansawdd adeiladau hanesyddol presennol lle mae cysylltiad gofodol neu weledol.
- Osgoi datblygiadau sy'n gwahanu neu'n effeithio'n andwyol ar y cyd-destun gwledig a mannau cyfagos fel Priordy Pil, Priordy Rath a Steynton.
- Ehangu anheddiad os oes angen gan osgoi nenlinellau a chadw seilwaith gwyrdd sy'n cysylltu cefn gwlad yn gyffredinol â'r arfordir.
- Rheoli seilwaith gwyrdd presennol fel cyrff dŵr a phrysgwydd coetir i wneud y gorau o fioamrywiaeth a gwella mynediad, gan gynnwys ar hyd ac i Ddyfrffordd Aberdaugleddau.
- Rhesymoli a grwpio defnyddiau manwerthu os yn bosibl ar y prif strydoedd masnachol os yn bosibl.
- Gwneud defnyddio buddiol o adeiladau diwydiannol adfeiliedig, gan achub ar y cyfle i wella'r glannau.

Ardaloedd cymeriad tirwedd cyfagos y Parc Cenedlaethol:

-

Ardaloedd cymeriad morwedd cyfagos y Parc Cenedlaethol:

ACM 32 Aberdaugleddau Mewnol

Ardaloedd agwedd a gwerth LANDMAP:



Ardaloedd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Ardaloedd Agwedd Tirwedd Hanesyddol	Ardaloedd Agwedd Ddaearegol	Ardaloedd Agwedd Gwasanaethau Tirwedd Ddiwylliannol	Ardaloedd Agwedd Cynefinoedd Tirwedd
092 – isel 068 – cymedrol	43876 – rhagorol	161 – isel 163 – cymedrol 142 – cymedrol 165 – cymedrol 164 - uchel	181 129	649 – isel 943 - isel 602 - uchel

Mae testun **italig trwm** yn nodi'r brif ardal agwedd lle mae un yn bodoli

Ardal Cymeriad Tirwedd 23: Diwydiannol De Cleddau

Lleoliad

Mae'r ACT hon ar ymyl deheuol Aber Cleddau. Mae i'r gorllewin o Ddoc Penfro a chyferbyn ag Aberdaugleddau a Neyland dros y dŵr.





Golygfa o'r orsaf drydan a'r burfa o Drwyn Pennar



Golygfa o'r orsaf drydan o'r de gyda'r Aber yn y cefndir

Disgrifiad cryno

Mae'r ACT hon yn cynnwys purfa Valero yn Rhoscrowdder a gorsaf bŵer nwy Penfro ar Ddyfrffordd Aberdaugleddau wedi'u gwahanu gan gilfach lanwol gysgodol ym Mhwllcrochan a chyda thir arfordirol agored a chlogwyni a llethrau coediog isel.

Nodweddion allweddol

- Topograffeg arfordirol o glogwyni craig isel a llethrau serth 25-40m o uchder yn codi o'r ymylon rhynglanwol o dywod a graean a llyfndir tonnau gyda chilfach lanwol yng Ngwastatir Pwllcrochan.
- Tua'r tir, mae'r tirffurf naturiol yn cyrraedd tua 44m AOD i'r gorllewin ac o fewn yr ardaloedd diwydiannol mae wedi'i dorri a'i lenwi mewn terasau i ffurfio llwyfandiroedd gwastad tua 6m AOD i'r dwyrain ond yn codi i 63m AOD ger Rhoscrowdder i'r gorllewin.
- Y ddcaeareg sylfaenol yw carreg laid Defonaidd gydag ardaloedd bach o Hen Dywodfaen Coch tua'r tir.
- Y burfa yw'r cyfadeilad diwydiannol mwyaf yn y Sir gyda thri simnai uchel ynghyd â staciau llai a chyfres o adeileddau mawr gan gynnwys tanciau storio olew. Dyma'r datblygiad amlycaf yn yr ardal, sy'n weladwy iawn ar hyd y Ddyfrffordd a'r staciau i'w gweld yn eang, fel ar draws Bae Sain Ffraid o'r gogledd.
- Mae'r orsaf bŵer wedi'i lleoli'n fwy cynnil ar dir isel wedi'i sgrinio gan dirffurf a llystyfiant i'r gogledd a'r de gyda phum corn bach unionfath ac adeileddau atodol cudd yn bennaf – er ei bod yn agored i'w gweld o'r dwyrain o amgylch Doc Penfro.
- **Mae'r datblygiadau wedi'u gwahanu oddi wrth y Ddyfrffordd gan lain arfordir cul o dir amaeth/wedi'i dorri ar gyfer glaswellt gyda gwrychoedd sydd wedi gordyfu a ffensys diogelwch (ger y burfa) i'r gorllewin ac yn bennaf â'r i'r dwyrain.**
- **Mae coetir llydanddail a phrysgwydd (coetir hynafol i'r dwyrain) yn gorwedd ar y llethrau serth a'r clogwyni isel.**
- **Mae nant leol yn rhedeg mewn dyffryn coediog caeedig bach i mewn i'r Aber yng Ngwastatir Pwllcrochan gyda gwastadeddau llaid rhynglanwol ac mae adar hirgoes yn porthi'n aml ar drai.**

- Mae diddordeb cadwraeth natur yn SoDdGA Dyfrffordd Aberdaugleddau ar yr arfordir ac ACA Sir Benfro Forol yn Aberdaugleddau gerllaw.
- Mae'r henebion cofrestredig yng Ngwersyll West Popton a Neuadd Lewiston, y ddau yn gaerau pentir mewndirol, ac mae amgaead Gwersyll West Pennar wedi goroesi oddi allan i derfynau allanol y diwydiant.
- Gorwedd yr ardal o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyfrffordd Aberdaugleddau.
- **Mae golygfeydd eang yn bosibl ar hyd ac ar draws yr Aber o Lwybr Arfordir Cymru lle mae'n dilyn y llain arfordirol gul i'r gorllewin o Bwllcrochan. Dyma'r unig fynediad cyhoeddus.** Er bod golygfeydd aml o seilwaith ynni ar y tir ac ar y môr, mae golygfeydd agosach o natur fwy tawel a gwledig hefyd.
- Yn ddiwylliannol mae'r ardal hon yn ymwneud ag ynni o'r 20fed ganrif ac wedi'i hamgylchynu gan gymunedau Saesneg eu hiaith yn yr ardal.

* **Noder:** Mae testun trwm yn nodi nodweddion a rhinweddau allweddol sy'n cyfrannu fwyaf at ymdeimlad o le.

Newid tirwedd

- Mae'r ardal yn drwm dan ddylanwad y burfa olew a datblygiad gorsaf bŵer nwy mwy diweddar ond gall hyn newid wrth i ffynonellau ynni adnewyddadwy ennill eu plwyf.
- Mae golygfeydd ar draws y ddyfrffordd bellach yn cynnwys tyrbinau gwynt o amgylch Aberdaugleddau.
- Mae gwelliannau wedi'u gwneud i ailblannu coetir ar yr ymylon arfordirol a chaniatáu mynediad ar hyd yr arfordir i'r gorllewin.

Canllawiau tirwedd

- Chwilio am gyfleoedd ar gyfer defnydd amgen neu adfer safleoedd heb adeileddau uchel fel staciau pan/os yw'r burfa a'r orsaf bŵer yn cael eu datgomisio yn er mwyn lleihau effeithiau ar y Parc Cenedlaethol.
- Osgoi datblygiad ynni gwynt oherwydd yr effeithiau ar osodiad y Parc Cenedlaethol.
- Atgyfnerthu patrwm hanesyddol gan gynnwys ffiniau caeau a safleoedd hanesyddol a, lle bo modd, gwella mynediad a gwybodaeth mewn perthynas â safleoedd hanesyddol.
- Rheoli'r safleoedd coetir ar gyfer bioamrywiaeth ac ystyried cynyddu ardaloedd o brysgwydd er mwyn darparu cynefin gwerthfawr i rywogaethau.
- Cynnal cymeriad gwastadeddau llaid agored, gan warchod y llif llanwol.
- Ymgymryd â mesurau rheoli llygredd i ffwrdd o'r glannau.
- Sicrhau bod Llwybr yr Arfordir yn aros ar agor i ddefnyddwyr.

Ardaloedd cymeriad tirwedd cyfagos y Parc Cenedlaethol:

ACT7 Penrhyn Angle

Ardaloedd cymeriad morwedd cyfagos y Parc Cenedlaethol:

ACM 32 Aberdaugleddau Mewnol- gorgyffwrdd â'r ardal gyfan

Ardaloedd agwedd a gwerth LANDMAP:


Ardaloedd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Ardaloedd Agwedd Tirwedd Hanesyddol	Ardaloedd Agwedd Ddaearegol	Ardaloedd Agwedd Gwasanaethau Tirwedd Ddiwylliannol	Ardaloedd Agwedd Cynefinoedd Tirwedd
090 – isel	43916 – cymedrol	232 – isel	171	771 – isel
065 – cymedrol		231 - isel	172	608 – cymedrol
061 – cymedrol	43882 - isel	244 – cymedrol	122	584 - uchel
098 - uchel	43920 - uchel	234 – cymedrol	199	549 - uchel

Mae testun **italig trwm** yn nodi'r brif ardal agwedd lle mae un yn bodoli

Ardal Cymeriad Tirwedd 24: Gwastadeddau Llaid De Cleddau

Leoliad

Mae'r ardal hon ar gyrion deheuol Doc Penfro
ac fe'i ffurfiwyd o'r gwastadeddau llaid rhynglanwol lle
mae ceg Afon Penfro'n cyrraedd Aber Cleddau.





Yr olygfa i'r de-orllewin dros y ddyfrffordd o Bennar



Yr olygfa i gyfeiriad Cefnmaen o Bennar

Disgrifiad cryno

Mae'r amfae eang hwn, gydag Afon Penfro'n llifo iddo, yn ffurfio basn amgaeedig bron gyda mynedfa gul i aber Afon Cleddau ym Mhennar. Gwastadeddau llaid rhynglanwol a chlytiau o raeon a pheth morfa heli ymylol ar drai sydd yma'n gyffredinol a dyffryn coediog cul i'r de orllewin.

Nodweddion allweddol

- **Aber llanwol gyda cheg gul gyda chyrsiau dŵr troellog gan gynnwys Afon Penfro a gwastadeddau llaid, graean bras rhynglanwol cyfyngedig ac ymylon morfa heli ar drai.**
- Y ddaearreg sylfaenol yw llifwaddod aberol.
- Mae ardal rhynglanwol yn cynnwys cynefinoedd o bwysigrwydd rhyngwladol a rhywogaethau pwysig a gwmpesir gan ACA Sir Benfro Forol a SoDdGA Dyfrffordd Aberdaugleddau.
- **Cynefin ar gyfer porthi adar hirgoes** sy'n ychwanegu diddordeb a symudiad.
- **Cymeriad agored a deinamig cryf**, yn cynyddu fel haen agored o ddŵr ar benllanw, ond wedi'i amgáu i raddau gan dir amaethyddol ar lethr y tu allan i'r ardal i'r gogledd a'r de.
- **Yn ei hanfod, morlun gwyllt, naturiol** gyda chanfyddiadau wedi'u haddasu oherwydd y modd gaiff y tir o amgylch ei ddefnyddio.
- **Mae llethrau serth dyffryn coediog isel tua'r de-orllewin gyda'i llednant fechan** yn llifo i'r aber yn cyferbynnu o ran maint a natur amgaeedig.
- Rhan o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Aberdaugleddau a'i diwylliant arfordirol a morol cyfoethog, er bellach yn ferddwr.
- Er nad oes modd hwylio ar ei hyd heddiw, defnyddiodd llongau Afon Penfro i gyrraedd y porthladd prysur ym Mhenfro hyd at ddechrau'r 18fed ganrif, sy'n rhoi rhywfaint o arwyddocâd hanesyddol i'r ardal.
- **Defnyddiau adloniadol disylw iawn** fel cychod bach gyda mynediad cyfyngedig iawn.
- **Mae golygfeydd gwych ar draws y dŵr o dir sy'n codi i'r gogledd a'r de o Lwybr**

Arfordir Cymru a rhai isffyrdd ond mynediad cyfyngedig iawn i ymyl y dŵr.

- Mae golygfeydd yn bosibl ar draws yr aber ar y cyd â'r orsaf bŵer nwy i'r gorllewin gyda'r burfa y tu hwnt, i gyrion Doc Penfro ym Mhennar i'r gogledd, Cil-maen i'r dwyrain a'r dirwedd wledig i'r de, gyda rhai peilonau.

* **Noder:** Mae *testun trwm* yn nodi nodweddion a rhinweddau allweddol sy'n cyfrannu fwyaf at ymdeimlad o le.

Newid tirwedd

- Potensial ar gyfer lefelau dŵr uwch yn gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd a mwy o erydu glannau ar ymyl y dŵr ac effeithiau ar gynefinoedd fel morfa heli a choed cyfagos.
- Mwy o bwysau posibl am fynediad hamdden i ymyl y dŵr.
- Ehangu posibl yr anheddiad a datblygiad cysylltiedig ag ynni y tu allan i'r ardal ond yn rhyngwledig.
- Potensial ar gyfer llygredd ac effeithiau eraill o ddefnyddiau ehangach Dyfrffordd Aberdaugleddau.

Canllawiau tirwedd

- Rheoli'r aber yn bennaf ar gyfer cadwraeth natur heb ymyrryd â phrosesau rhynglanwol di-dor.
- Gwarchod yr ardal rhag digwyddiadau llygredd a all ddeillio o weithgareddau diwydiannol neu ddociau cyfagos.
- Osgoi unrhyw ddatblygiad caled i'r ardal rynglanwol neu forfa heli cysylltiedig er mwyn cynnal ei chymeriad naturiol.
- Osgoi dwysau defnydd hamdden neu fasnachol.
- Rheoli cynefin coetir dyffryn i'r de orllewin er mwyn cynnal y tir caeedig a gwneud y gorau o fioamrywiaeth.

Ardaloedd cymeriad tirwedd cyfagos y Parc Cenedlaethol:

-

Ardaloedd cymeriad morwedd cyfagos y Parc Cenedlaethol:

ACM 32 Aberdaugleddau Mewnol- gorgyffwrdd â'r ardal gyfan

Ardaloedd agwedd a gwerth LANDMAP:


Ardaloedd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Ardaloedd Agwedd Tirwedd Hanesyddol	Ardaloedd Agwedd Ddaearegol	Ardaloedd Agwedd Gwasanaethau Tirwedd Ddiwylliannol	Ardaloedd Agwedd Cynefinoedd Tirwedd
098 - uchel 091 – cymedrol	Ardal heb ei hasesu 43920 - uchel	227 – cymedrol 234 – cymedrol	201 178	549 - uchel 608 – cymedrol

Mae testun *italig trwm* yn nodi'r brif ardal agwedd lle mae un yn bodoli

Ardal Cymeriad Tirwedd 25: Hundleton a Llandyfái

Leoliad

Mae ardal hon i'r de o Sir Benfro ac mae'n amgylchynu Penfro gan ei gwahanu oddi wrth Ddoc Penfro. Saif hefyd i'r de o burfa Valero a gorsaf bŵer nwy ar ddyfrffordd Aberdaugleddau am y ffin â Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro i'r gogledd, y de a'r gorllewin.





Yr olygfa o'r Ffordd Las drosodd i Cosheston



Chapel Hill o fan ger Eglwys Wynnio

Disgrifiad cryno

Yr ACT hon yn gyffredinol yw brithwaith tir isel bryniog chribau â'r dwyrain i'r gorllewin, wedi'u britho â dyffrynnoedd. Mae'n agored i raddau helaeth i'r de gyda chymeriad agos i'r arfordir o wrychoedd wedi'u torri'n isel a golygfeydd eang i'r de ac i'r gogledd i burfa Valero ac Aberdaugleddau ond hefyd i Afon Penfro. Mae coetiroedd parc hanesyddol Orielton a thyllau eglwys nodedig yn darparu nodweddion â ffocws iddynt yn yr ardal. I'r gogledd mae'n fwy caeedig gyda choed ac mae'n cynnwys llain-gaeau yn agos at Cosheston a Llys yr Esgob Llandyfái a'r parc a gardd hanesyddol cysylltiedig. I'r gogledd orllewin mae'r ardal yn amgylchynu Penfro, gan ei gwahanu oddi wrth Ddoc Penfro ac yn disgyn i Afon Penfro gyda chaeau a choetir. Mae llinellau pŵer a ffermydd solar hefyd yn amlwg.

Nodweddion allweddol

- **Cyfes o esgeiriau sgarp iseldir rhwng y dwyrain a'r gorllewin a brynau crwn yn codi i rhwng 60m AOD ac 80m AOD gyda dyffrynnoedd rhyngddynt, yn aml gyda llethrau serth, yn disgyn i tua 10m AOD.**
- Mae nentydd i'r gogledd yn disgyn i'r gorllewin i Afon Penfro neu Cosheston Pill neu i'r arfordir i'r de-orllewin tuag at Gors Castellmartin.
- Y ddaear yn bennaf yw brigiad eang rhwng y dwyrain a'r gorllewin o Hen Dywodfaen Coch (Silwraidd - Defonaidd) i'r de a lleiniau cyfochrog i'r gogledd. Mae leiniau calchfaen carbonifferaidd rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn gorwedd rhwng y rhain. Ceir hefyd ddyddodion afonol rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn y dyffryn.
- **Mae'r ardal yn dir ffermio amaethyddol/glaswelltir wedi'i wella sy'n cael ei reoli'n ddwys yn bennaf ac mae mwy o ddefnydd â'r mewn caeau afreolaidd eu siâp yn amrywio o fach i ganolig/mawr. Gwrychoedd isel/cloddiau/muriau cerrig yw terfynau caeau i'r de o Benfro gan roi cymeriad agored fel i'r gogledd o Eglwys Wynnio. Mae mwy o goed ar derfynau gan greu caeau caeedig i'r gogledd tuag at Cosheston Pill lle mae yna hefyd lain-gaeau nodedig.**
- Mae SoDdGA Gweunydd Somerton Meadows i'r dwyrain o Wallaston Green yn enghraifft o laswelltir a reolir yn llai dwys yn yr ardal.

- **Ceir coetir, gan gynnwys coetir hynafol, yn bennaf ar waelod dyffrynnoedd neu lethrau mwy serth er bod blociau mawr o goetir wedi'i adfer ym Mharc Orierton ar ben crib sy'n ffurfio nodwedd amlwg.** Lleolir planhigfeydd conwydd bach i'r de orllewin.
- **Coetir hynafol yng Nghoed Quoits mewn dyffryn endoredig cul wrth ddynesu at Benfro o'r de orllewin.**
- Cefn gwlad yw mwyafrif yr ardal gydag anheddau bach a phentrefannau gwledig, gyda ffermydd anghysbell gyda chyfadeiladau cnewyllol ochr yn ochr ag adeiladau traddodiadol.
- **Mae Llandyfái yn glwstwr anheddu bach/Ardal Gadwraeth gydag eglwys blwyf ganoloesol restredig fechan ac sy'n gysylltiedig â heneb gofrestredig a pharc a gardd hanesyddol Lllys yr Esgob Llandyfái.**
- **Nodweddir Cosheston gan anheddiad llinellol trefnus ac Ardal Gadwraeth.**
- **Adeiladau rhestredig yn gysylltiedig â pharciau ac weithiau wedi'u gwasgaru mewn mannau eraill e.e, tyrau eglwysig nodedig yn St Petrox ac aEglwys Wynnio ar ben eu cribau, Sant Daniel i'r de o Benfro a Sant Decumanus yn Rhoscrowdder, a thai fel Welston Court a ffermdai.**
- **Mae parc a gardd hanesyddol Ystâd Orierton gyda'i leiniau coetir mawr a muriau cerrig yn nodwedd nodedig yn y gefn agored a thirwedd dyffyn i'r de.**
- Mae Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyfrffordd Aberdaugleddau ar y cyrion i'r gogledd orllewin.
- **Mae henebion cynhanesyddol yn fwy cyffredin i'r gorllewin sy'n dynodi dyfnder amser ond nid ydynt yn tueddu i fod yn nodweddion amlwg e.e. crugiaau crynion Wallaston, Corston Beacon a Dry Burrows ar dir uchel, caer bentir fewndirol Kings Mill a siambr gladdu Kingston.**
- Mae yna elfennau fertigol mewn mannau gan gynnwys llinellau pŵer gyda pheilonau yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin i orsaf bŵer nwy Penfro, mastiau diwifr a thyrbinau gwynt bach sy'n amlwg ar ben cribau.
- Dylanwadir ar yr ardal i'r gogledd orllewin gan gyrn simnai ac adeileddau a goleuadau eraill sy'n gysylltiedig â phurfa Valero ac, i raddau llai, gorsaf bŵer Nwy Penfro.
- Ffermydd solar amlwg gydag ymylon bratiog mewn caeau afreolaidd i'r de a'r gorllewin ar lethrau sy'n wynebu'r de gyda gwrychoedd wedi'u torri'n isel yn ffinio â nhw ac yn edrych dros y cribau cyfagos. Saif fferm solar hefyd i'r gogledd o Benfro ger is-orsaf.
- Mae'r system reilffordd a'r A477 yn croesi'r ardal i'r gogledd gan gysylltu â Doc Penfro.
- Mae Llwybr Arfordir Cymru yn rhedeg gerllaw dyfrffordd Aberdaugleddau ac o amgylch Afon Penfro i'r gogledd ac mae Llwybr Beicio Cenedlaethol 4 yn mynd trwy Llandyfái i'r dwyrain.
- **Rhyngweledd gyda'r Parc Cenedlaethol i'r de, gogledd ddwyrain, dwyrain a gorllewin gyda golygfeydd i'r môr o'r ffin ddeheuol ac i Aberdaugleddau i'r gogledd gan roi cymeriad arfordirol ei natur i'r gorllewin.**
- **Ceir golygfeydd allweddol o ac i'r eglwysi rhestredig y sonnir amdanynt uchod, i'r de tuag at y môr ac o Lwybr Arfordir Cymru.**
- **Mae llonyddwch yn cynyddu ar loriau'r dyffrynnoedd ac i'r de.**
- **Mae'r ardal rhwng Penfro a Doc Penfro yn cael ei dylanwadu'n fwy gan ddatblygiadau fel ysgol o'i mewn ond mae ei chymeriad ar ffurf crib bychan, y gorwel agored a'r lethrau sy'n ffinio ag Afon Penfro i'r de yn cynnwys cyfres o gaeau amaethyddol afreolaidd a choetiroedd hynafol wedi'u hadfer a chaeau chwarae, a phob un yn cyfrannu at wahanu'r ardaloedd trefol ac yn cyfrannu at leoliad Ardal Gadwraeth Penfro.**
- **Mae gan y gyfres o esgeiriau sgarp isel i'r de lethrau a nenlinellau agored gan gynnwys ar y ffin â'r Parc Cenedlaethol.**

- Yn ddiwylliannol mae'r ardal hon yn rhan o ardal ehangach a nodweddir gan dir amaethyddol bras, cymunedau Saesneg eu hiaith gryn bellter i'r de o Linell Landsger ac a warchodwyd yn hanesyddol gan Gastell Penfro.

* **Noder:** Mae testun *trwm* yn nodi nodweddion a rhinweddau allweddol sy'n cyfrannu fwyaf at ymdeimlad o le.

Newid tirwedd

- Datblygiadau cysylltiedig ag ynni yn ymestun i ogledd yr ardal.
- Codi llinellau pŵer a pheilonau cysylltiedig.
- Lledu ffyrdd ar gyfer mwy o draffig.
- Ffermydd solar ar raddfa fawr yn enwedig i'r de a'r gorllewin gyda phwysau tebygol am fwy.
- Pwysau posibl i ddatblygu ynni gwynt.
- Ehangu Penfro a Doc Penfro.
- Dwysáu amaethyddiaeth a chodi ffensys pyst a gwifrau yn lle gwrychoedd/cloddiau mewn mannau.
- Mae llygredd goleuni'n effeithio ar yr ardal o drefi a datblygiad diwydiannol tua'r gogledd.

Canllawiau tirwedd

- Rheoli ehangu datblygiadau sy'n ymwneud ag ynni fel solar, gwynt a llinellau pŵer fel nad eir y tu hwnt i gapasiti'r dirwedd agored hon.
- Cynnal gwahaniad rhwng Penfro a Doc Penfro gan gadw a gwella'r defnydd amaethyddol ac adlonianol ac atgyfnerthu terfynau coetiroedd a gwrychoedd.
- Dylid gwarchod gosodiad tirwedd Ardaloedd Cadwraeth, parciau a gerddi ac adeiladau rhestredig gan gynnwys golygfeydd allan o'r nodweddion hyn.
- Lleihau'r potensial ar gyfer llygredd golau pellach mewn datblygiadau yn y dyfodol.
- Rheoli datblygiadau carafanau a gwersylla yn unol â chanllawiau'r sir.
- Gwarchod a gwella systemau llain-gaeau sydd wedi goroesi.
- Gwarchod a gwella terfynau caeau gan gynnwys muriau cerrig a chloddiau.
- Gwarchod a gwella bioamrywiaeth i ddarparu coridorau a chlytiau o fewn y caeau a reolir yn ddwys.

Ardaloedd cymeriad tirwedd cyfagos y Parc Cenedlaethol:

ACT4 Maenorbŷr / Freshwater East

ACT6 Meysydd Tanio Castellmartin / Merrion

Ardaloedd cymeriad morwedd cyfagos y Parc Cenedlaethol:

ACM A32 Aberdaugleddau Mewnol- gorgyffwrdd â'r ardal

ACM 33 Daugleddau- gorgyffwrdd â'r ardal

ACM37 Freshwater East a Maenorbŷr

ACM38 Dyfroedd arfordirol Lydstep Haven

Ardaloedd agwedd a gwerth LANDMAP:

Ardaloedd Agwedd Gweledol a Synhwyaidd	Ardaloedd Agwedd Tirwedd Hanesyddol	Ardaloedd Agwedd Ddaearegol	Ardaloedd Agwedd Gwasanaethau Tirwedd Ddiwylliannol	Ardaloedd Agwedd Cynefinoedd Tirwedd
061 - cymedrol 058 - cymedrol	43915 – cymedrol 43920 - uchel 46190 - uchel 46179 - uchel 46235 - uchel 46191 - rhagorol 46173 - rhagorol 43914 - uchel	234 – cymedrol 208 – cymedrol 225 – cymedrol 228 – cymedrol 224 – cymedrol 230 – cymedrol 229 – cymedrol 239 - uchel 220 - uchel 219 - uchel	122 119 171	071 - cymedrol 982 - cymedrol 392 - cymedrol 586 - cymedrol 723- uchel

Mae testun *italig trwm* yn nodi'r brif ardal agwedd lle mae un yn bodoli